# BENJI WEBBE

# CERDDORIAETH ♫

## ETIFEDDIAETH

Cafodd Benji Webbe ei eni yng Nghasnewydd, De Cymru, ar ystâd Somerton.

Mae ei etifeddiaeth yn Afro-Garibiaidd, gyda gwreiddiau teuluol yn St Kitts.

Gan dyfu i fyny ymhlith cymuned Gorllewin Indiaidd agos yng Nghasnewydd, roedd cerddoriaeth ym mhobman; reggae, Motown a synau Caribïaidd yn siapio ei fywyd cynnar.

## CYMRU YW...

GWREIDDIAU RHYTHM CYMRU

Nid oedd Cymru'n teimlo'n rhywbeth a oedd yn perthyn yn awtomatig i Benji.

Wrth dyfu i fyny, byddai rhai yn cwestiynu ei Gymreictod oherwydd ei hunaniaeth Ddu. Ond ni dderbyniodd hynny erioed.

"Dwi'n Gymro," meddai. "Mae'r Caribî ynof i - a dyffrynnoedd Cymru hefyd.

"Mae ei gerddoriaeth yn adlewyrchu'r ddau: rhythm Caribïaidd gydag ymylon roc Prydeinig.

PIONEER OF WALES



## CYFRANIAD

Fel prif leisydd Skindred, mae Benji wedi treulio dros 25 mlynedd yn perfformio ar lwyfannau ledled y byd, gan greu cerddoriaeth o Gasnewydd sy'n dod â phobl at ei gilydd.

Ennill Gwobr MOBO - gan ddod yr artist Du Cymreig cyntaf i wneud hynny - oedd yn bwysig nid am statws, ond am ei fod yn gwneud i bobl wrando.

Ei neges yw hon: does dim rhaid i chi ddilyn neb arall - gallwch osod eich cyflymder eich hun.

## CRYFDERAU A LLAWENYDD

Drwy gerddoriaeth a geiriau, mae Benji'n codi pobl ac yn eu hatgoffa: "Ti'n gallu gwneud hyn."

> "DYSGA I FWYNHAU BLE RWYT TI AR Y FFORDD I BLE RWYT TI'N MYND, OHERWYDD OS NA GYRHAEDDA' DI'R MAN RWYT TI'N ANELU ATO, O LEIAF MI WNEST TI GAEL AMSER DA YN TRIO."